**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**
**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

## Papur Gwyrdd yr UE:
## "Towards a future Maritime Policy for the Union: A European vision for the oceans and seas"

## Cwestiynau ymgynghori

Ceir rhestr lawn o gwestiynau a ddaw o'r Papur Gwyrdd Morol yn Atodiad A.

**Byddai'n ddefnyddiol pe gallech mynegu eich barn, yn enwedig ar y cwestiynau detholedig a ganlyn:**

Yr angen am bolisi morol integredig yr UE a sut y gall hwn ychwanegu at werth mentrau'r DU gyfan, mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a mentrau lleol a phreifat sydd eisoes yn bodoli yn y maes morol (yn cynnwys Mesur Morol arfaethedig Llywodraeth y DU).

Pa ffactorau penodol sydd angen eu cofio wrth ystyried effaith polisïau morol yr UE yng Nghymru?

Beth yw rôl a phwysigrwydd y sector morol yng Nghymru a beth sydd angen ei wneud i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gystadleuol?

Pa ymchwil sy'n ymwneud â'r môr a gynhelir yng Nghymru ar hyn o bryd a beth fyddai rôl Strategaeth Ymchwil Ewropeaidd sy'n ymwneud â'r Môr?

Sut y gellir hyrwyddo a gweithredu technolegau ynni adnewyddadwy arloesol ar y môr yng Nghymru? A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud digon yn y maes hwn?

Sut y gellir newid y sefyllfa o ran y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n ymuno â rhai proffesiynau morol a sut y gellir sicrhau bod swyddi'n ddiogel ac yn atyniadol?

Sut y gellir cynnal ansawdd bywyd yn rhanbarthau arfordirol Cymru, wrth barhau i ddatblygu swyddi ac incwm cynaliadwy?

Pa gamau pellach y dylai'r UE eu cymryd leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu i hyn o fewn yr amgylchedd morol?

Beth sy'n rhaid ei wneud i sicrhau bod rhanbarthau arfordirol yn llai tebygol o gael llifogydd a chael eu herydu?

Sut y gellir goruchwylio glannau a dyfroedd arfordirol Cymru'n well er mwyn eu hamddiffyn rhag bygythiadau dynol fel llygredd gan longau a gweithgareddau anghyfreithlon (e.e. masnachu pobl a terfysgaeth)?

Sut y gall cefnogi arloesedd mewn gwasanaethau a chynhyrchion sy'n ymwneud â thwristiaeth arfordirol yng Nghymru yn effeithiol? A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwneud digon i gefnogi twristiaeth arfordirol?

Pa ran y gallai un neu fwy o'r canolfannau rhagoriaeth forol rhanbarthol ei chwarae yng Nghymru?

Beth yw'r egwyddorion a'r dulliau a ddylai ategu systemau cynllunio gofodol morol? Beth yw rôl Cynllun Gofodol Cymru yn hyn?

Sut y dylid cynnwys materion morol ymhellach mewn polisïau a rhaglenni eraill yr UE sy'n effeithio ar Gymru (ee: rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd)?

Yn ogystal, rydym yn croesau sylwadau mwy cyffredinol yn ymwneud â'r Papur Gwyrdd neu ymatebion i unrhyw gwestiynau eraill a nodir yn yr Atodiad.

Mae'r Papur Gwyrdd a'r dogfennau ategol ar gael ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd, sef: http://ec.europa.eu/maritimeaffairs/policy_en.html (Saesneg yn unig)

Ceir crynodeb o'r Papur Gwyrdd yma:
http://ec.europa.eu/maritimeaffairs/communication_en.html (Saesneg yn unig)

## Atodiad: Cwestiynau a godwyd ym Mhapur Gwyrdd Morol yr UE

### 1. Cyflwyniad

- A ddylai fod gan yr UE bolisi morol integredig?
- Sut y gall yr UE ychwanegu at werth y mentrau cenedlaethol, lleol a phreifat sydd eisoes yn bodoli yn y maes morol?

### 2. Cynnal Arweinyddiaeth Ewrop o ran Datblygu Morol Cynaliadwy

#### *2.1 Diwydiant Morol Cystadleuol*

- Sut y gall sectorau morol Ewrop barhau i fod yn gystadleuol, gan hefyd ystyried anghenion arbennig busnesau bach a chanolig?
- Pa ddulliau a ddylai fod ar waith er mwyn sicrhau bod datblygu morol newydd yn gynaliadwy?

#### *2.2 Pwysigrwydd yr Amgylchedd Morol o ran Defnydd Cynaliadwy o'n Hadnoddau Morol*

- Sut y gall polisi morol gyfrannu at gynnal ein hamgylchedd a'n hadnoddau morol?
- Sut y gall polisi morol hybu amcanion y Strategaeth Thematig Forol ymhellach?
- Beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio asesiadau risg er mwyn sicrhau diogelwch ar y môr?

#### *2.3 Parhau i fod yn Flaengar o ran Gwybodaeth a Thechnoleg*

- Sut y gellir datblygu Strategaeth Ymchwil Ewropeaidd sy'n ymwneud â'r Môr er mwyn dod i wybod mwy a hyrwyddo technolegau newydd?
- A ddylid datblygu Rhwydwaith Ymchwil Morol Ewropeaidd?
- Beth yw'r dulliau gorau o ran sicrhau bod gwybodaeth yn arwain at incwm a swyddi?
- Ym mha ffyrdd y dylid cynnwys rhanddeiliaid?

#### *2.4 Arloesedd o dan Amgylchiadau sy'n Newid*

- Pa gamau pellach y dylai'r UE eu cymryd leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu i hyn o fewn yr amgylchedd morol?
- Sut y gellir hyrwyddo a gweithredu technolegau ynni adnewyddadwy arloesol ar y môr?
- Sut y gellir sicrhau gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni ac arallgyfeirio tanwydd ym maes llongau?
- Beth sydd ei angen i wireddu manteision posibl biotechnoleg las?

#### *2.5 Datblygu Sgiliau Morol Ewrop ac Ehangu ar Gyflogaeth Morol Cynaliadwy*

- Sut y gellir newid y sefyllfa o ran y gostyngiad yn nifer y bobl o Ewrop sy'n ymuno â rhai proffesiynau morol a sut y gellir sicrhau bod swyddi'n ddiogel ac yn atyniadol?
- Sut y gellir cyfuno gwell amodau gwaith, gwell cyflog a mwy o ddiogelwch â chystadleurwydd rhwng y sectorau?
- Sut y gellir sicrhau ansawdd addysg, hyfforddiant ac ardystio?

#### *2.6 Clystyru*

- Pa ran y gall clystyrau morol ei chwarae o ran creu mwy o gystadleuaeth, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig, o ran gwneud swyddi morol yn fwy atyniadol, ac o ran hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth forol?

- Sut y gall yr UE hyrwyddo synergedd rhwng sectorau sy'n perthyn i'w gilydd?

**Y Fframwaith Rheoleiddio**

- Sut y gellir gwella'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer yr economi morol er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol ac anghysonl ar amcanion morol?
- Pa enghreifftiau o eithrio'r sector morol o ddeddfwriaeth gymdeithasol yr UE y gellir eu cyfiawnhau o hyd?
- A ddylid annog offerynnau cyfreithiol penodol pellach yn ymwneud ag amodau cyflogaeth yn y sector morol?
- Sut y gellir symleiddio rheoliadau diogelwch yr UE wrth gynnal safonau lefel uchel?
- I ba raddau y gall cymhellion economaidd, hunanreoleiddio a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ategu rheoliadau'r llywodraeth?
- Sut y dylai'r UE weithredu ymhellach i ddelio â natur annigonol baneri safon isel a darparu cymhellion i gofrestru o dan faneri Ewropeaidd?
- A ddylai cofrestr yr UE opsiynol fod ar gael? Pa amodau a chymhellion y gellir eu hystyried ar gyfer y fath gofrestr?
- Sut y dylid datblygu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ymhellach i gyflawni ei nod o bysgodfeydd cynaliadwy?

## 3. Sicrhau Ansawdd Bywyd Gorau mewn Rhanbarthau Arfordirol

### *3.1 Ardaloedd Arfordirol yn dod yn Leoedd mwy Atyniadol i Bobl Fyw a Gweithio ynddynt*

- Sut y gellir cynnal ansawdd bywyd yn rhanbarthau arfordirol Cymru, wrth barhau i ddatblygu swyddi ac incwm cynaliadwy?
- Pa ddata a ddylai fod ar gael ar gyfer cynllunio mewn rhanbarthau arfordirol?

### *3.2 Addasu i Beryglon Arfordirol*

- Beth sy'n rhaid ei wneud i sicrhau bod rhanbarthau arfordirol yn llai tebygol o gael llifogydd a chael eu herydu?
- Pa gydweithrediad pellach sydd ei angen yn yr UE i ymateb yn ddigonol i drychinebau naturiol?
- Sut y gellir goruchwylio glannau a dyfroedd arfordirol Cymru'n well er mwyn eu hamddiffyn rhag bygythiadau dynol?

### *3.3 Datblygu Twristiaeth Arfordirol*

- Sut y gellir cefnogi arloesedd mewn gwasanaethau a chynhyrchion sy'n ymwneud â thwristiaeth arfordirol yng Nghymru yn effeithiol?
- Pa fesurau penodol y dylid eu cymryd ar lefel yr UE o ran hyrwyddo datblygu twristiaeth gynaliadwy ynysoedd a rhanbarthau arfordirol?

### *3.4 Rheoli'r Rhyngwyneb Tir/Môr*

- Sut y gellir gweithredu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM) yn llwyddiannus?
- Beth yw'r ffordd orau i'r UE sicrhau bod porthladdoedd yn parhau i gael eu datblygu'n gynaliadwy?
- Pa ran y gall un neu fwy o'r canolfannau rhagoriaeth forol rhanbarthol ei chwarae yng Nghymru?

## 4. Darparu'r Offerynnau i Rheoli ein Perthynas â'r Cefnforoedd

### *4.1 Data yn y Gwasanaeth Gweithgareddau Lluosog*

- Ar ba linellau y dylid datblygu Atlas Ewropeaidd o'r Moroedd?
- Sut y gellir sefydlu, cynnal ac ariannu Rhwydwaith Arsylwi Morol a Data Ewropeaidd ar sail gynaliadwy?
- A ddylid datblygu rhwydwaith cynhwysfawr o systemau llwybro llongau presennol ac i'r dyfodol ar gyfer dyfroedd arfordirol yr UE?
- Pa fath o ffynonellau data a ddylai ei defnyddio, sut y byddai'r rhain yn cael eu hintegreiddio ac i bwy y byddai'n darparu'r gwasanaethau?

### *4.2 Cynllunio Gofodol ar gyfer Economi Morol sy'n Tyfu*

- Beth yw'r egwyddorion a'r dulliau a ddylai ategu systemau cynllunio gofodol morol?
- Sut y gellir sicrhau bod systemau ar gyfer cynllunio ar dir ac ar y môr yn cydweddu â'i gilydd?

### *4.3 Manteisio ar Gymorth Ariannol i Ranbarthau Arfordirol*

- Beth yw'r ffordd orau i offerynnau ariannol yr UE gyfrannu at gyflawni amcanion polisi morol?
- A oes angen gwell data am ranbarthau arfordirol ac am weithgareddau morol?
- Sut y dylid adlewyrchu polisi morol yn y trafodaethau ynghylch Fframwaith Ariannol nesaf yr UE?

## 5. Llywodraethu Morol

### *5.1 Llunio Polisiau o fewn yr UE*

- Sut y gellir gweithredu agwedd integredig tuag at faterion morol yn yr UE?
- Pa egwyddorion a ddylai fod yn sail i hyn?
- A ddylid cynnal cynhadledd ar ymarfer gorau o ran llywodraethu morol bob blwyddyn?

### *5.2 Gweithgareddau Llywodraethau ar y Môr*

- Sut y gall yr UE ysgogi gwell cydlynid, gwell effeithlonrwydd cost a gwell cydgysylltu rhwng gweithgareddau'r llywodraeth ar ddyfroedd arfordirol yr UE?
- A ddylai'r UE sefydlu gwasanaeth gwylwyr y glannau? Beth fyddai ei nod a'i swyddogaethau?
- Ar gyfer pa weithgareddau eraill y dylid datblygu "Gofod Morol Ewropeaidd Cyffredin"?

### *5.3 Rheolau Rhyngwladol ar gyfer Gweithgareddau Byd-eang*

- Beth yw'r ffordd orau i'r UE ddylanwadu ar fforymau morol rhyngwladol?
- A ddylai'r Gymuned Ewropeaidd ddod yn aelod o fwy o gyrff morol amlochrog?
- Pa gamau y dylai'r UE eu cymryd i gryfhau ymdrechion rhyngwladol i ddileu pysgodfeydd anghyfreithlon, heb eu rheoleiddio na'u cofnodi (IUU)?
- Sut y gellir defnyddio polisiau allanol yr UE i hyrwyddo cyfartaledd o ran yr economi morol byd-eang ac annog trydydd gwledydd i fabwysiadu polisïau ac arferion morol cynaliadwy?

### *5.4 Ystyried Gwirioneddau Daearyddol*

- Pa benodoldeb rhanbarthol sydd angen ei ystyried ym mholisïau morol yr UE?
- Sut y dylid integreiddio materion morol ymhellach i mewn ym mholisïau'r UE sy'n ymwneud â chymdogaeth a datblygu?

## 6. Adennill Etifeddiaeth Morol Ewrop ac Ailddatgan Hunaniaeth Forol Ewrop

- Pa gamau a ddylai'r UE eu cymryd i gefnogi addysg ac etifeddiaeth forol a meithrin ymdeimlad cryfach o hunaniaeth forol?